Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

PROTOCOL
PWYLLGOR AMDDIFFYN PLANT ARDAL (PAPA) GYMRU GYFAN
Amddiffyn Plant y mae Salwch Yn cael ei Achosi Neu'i Ffugio gan Ofalwyr
2004

(I'w ddarllen ar y cyd â dogfen yr Adran Iechyd/Llywodraeth Cynulliad Cymru "Safeguarding Children in Whom Illness is Fabricated or Induced" a "Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2002")

Amddiffyn Plant y mae Salwch yn cael ei Achosi neu'i Ffugio gan Ofalwyr
Protocol Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal i Gymru Gyfan

1. CYFLWYNIAD

Mae Salwch sydd wedi'i Ffugio/ Achosi mewn plant yn cael ei adnabod fel camdriniaeth plant.

1.1 Yn 2002, cyhoeddodd yr Adran Iechyd, Y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg a Sgiliau a Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfarwyddyd cynhwysfawr o dan statud sef, ***"Safeguarding Children in Whom Illness is Fabricated or Induced".***

1.2 Mae'r cyfarwyddyd hwn yn darparu fframwaith cenedlaethol i bob asiantaeth ac yn argymell bod cyfarwyddyd manylach a mwy penodol ar gael yn lleol. Yn ogystal â hyn, lluniodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) adroddiad ei weithgor ei hunan.

1.3 Mae'r cyfarwyddyd yn rhoi golwg gyffredinol gynhwysfawr o Salwch sydd wedi'i Ffugio, ac yn enwedig y materion cymhleth sy'n ymwneud â gweithio â theuluoedd.

1.4 Dylid edrych ar y polisi cenedlaethol uchod (Safeguarding Children in whom Illness is Fabricated/Induced) a Phrotocol PAPA Cymru Gyfan fel atodiadau i Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant 2000.

1.5 Dylai'r dogfennau uchod fod ar gael i ymarferwyr ac mae'n rhaid eu darllen ar y cyd â'r protocol hwn.

1.6 Dylid rheoli cyfeiriadau sy'n ymwneud â salwch sydd wedi'i ffugio/achosi yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2002, Rhan 3 – Ymdrin ag Achosion Unigol a'r protocol hwn.

Bydd ffugio symptomau ac arwyddion gan ofalwr yn arwain at niwed i'r plentyn boed os yw hynny yn uniongyrchol o ganlyniad i weithredoedd y gofalwr <u>NEU</u> o ganlyniad i archwiliad a thriniaeth feddygol ddiangen.

Amddiffyn Plant y mae Salwch yn cael ei Achosi neu'i Ffugio gan Ofalwyr
Protocol Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal i Gymru Gyfan

Dylid tynnu sylw pob gweithiwr proffesiynol ym mhob asiantaeth at y posibilrwydd o Salwch sydd wedi'i Ffugio

1.7 Gall y canlynol fod yn bresennol:

- Gorliwio salwch a symptomau go iawn
- Ffugio symptomau e.e. diffyg anadl wrth gysgu, strociau, ymosodiadau asthma ac alergedd ac ati
- Ffugio arwyddion, profion a chofnodion, e.e. ychwanegu gwaed neu siwgr at wrin, cofnodion tymheredd ffug
- Achosi salwch corfforol, e.e. gwenwyno, mygu, newynu neu ddiet amhriodol
- Baban neu blentyn yn marw'n annisgwyl ac yn sydyn
- Honiadau ffug o gamdriniaeth
- Annog neu ofyn i'r plentyn ymddangos yn anabl, gan gynnwys anabledd dysgu a/neu angen triniaethau neu offer arbenigol diangen ar gyfer y plentyn

2.0 Gall **salwch sydd wedi'i ffugio** fod yn anarferol ond dylai ffurfio rhan o ddiagnosis/ystyriaeth wahaniaethol i bob gweithiwr proffesiynol, o fewn y maes lechyd yn enwedig, wrth weithio â/trin plant a phobl ifanc.

2.1 Mewn achos lle mae salwch sydd wedi'i ffugio'n cael ei amau, dylid gwneud cyfeiriad i Wasanaethau Cymdeithasol.

2.2 Lle bydd unrhyw bryderon o'r fath yn dod i'r amlwg:

- Mae angen i bob gweithiwr proffesiynol ym mhob asiantaeth fod yn ymwybodol o'r angen i ofyn am gyngor uwch weithiwr proffesiynol allweddol yn gynnar yn y broses (gweler y rhestr yn Atodiad D)

- Dylid cymryd gofal mawr wrth benderfynu a ddylid rhannu pryderon gyda'r teulu ar y cam hwn, a dim ond mewn achosion lle mae'n amlwg na fydd hyn yn peryglu diogelwch y plentyn ymhellach y dylid gwneud hyn. (Pwysleisir hyn fel proses sy'n wahanol i'r drefn arferol o weithio mewn partneriaeth â rhieni).

- Mae'n rhaid gweithredu o fewn amserlen nad yw'n niweidiol i anghenion y plentyn

- Mae **RHAID** i bob gweithiwr proffesiynol gadw cofnodion clir, cywir a chyfoes

2.3 Wedi hynny, bydd Asesiad Cychwynnol yn cael ei gyflawni gan Wasanaethau Cymdeithasol a bydd cyfarfod strategaeth o dan y gweithdrefnau amddiffyn plant yn cael ei gynnal. Bydd y cyfarfod strategaeth yn cynnwys uwch swyddogion proffesiynol o bob asiantaeth berthnasol:-

- Uwch Reolwr Gwasanaethau Cymdeithasol/ Arweinydd Tîm/ Gweithiwr Cymdeithasol
- Meddyg a Nyrs wedi'u Henwi neu weithiwr proffesiynol tebyg
- Uwch Swyddog Archwilio'r Heddlu
- Ymgynghorydd Cyfreithiol yr Awdurdod Lleol
- Meddyg Teulu
- Unigolion proffesiynol eraill o fewn y maes iechyd (sydd naill ai'n ymwneud â'r teulu neu'n unigolyn arbenigol)
- Addysg ac asiantaethau eraill os ydynt wedi'u nodi

2.4 Unwaith y penderfynir y dylid cynnal cyfarfod strategaeth;

Bydd y cyfarfod Strategaeth yn:-

- Rhannu gwybodaeth ac yn cynllunio i gynhyrchu cronoleg fanwl o'r holl faterion, gan fedru adnabod arwyddion a symptomau a gadarnhawyd yn glir. (Mae gan y Sector iechyd gyfrifoldeb penodol i esbonio arwyddocâd y wybodaeth feddygol). Penderfynwch a ddylid cychwyn ymholiadau Adran 47
- Cadarnhau'r gweithwyr iechyd proffesiynol allweddol a'r gweithwyr proffesiynol allweddol o asiantaethau eraill
- Egluro ac o bosibl yn cyfyngu nifer y gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweld y plentyn e.e. sicrhau bod yr un Meddyg Teulu yn ymateb i geisiadau am ymgynghoriad lle bo hynny'n bosibl
- Ystyried yr angen i weld cofnodion iechyd y teulu. Dylid hwyluso hyn trwy Feddyg a Nyrs a Enwir a/neu a Ddynodir.
- Gwneud penderfyniadau ar rannu neu beidio â rhannu gwybodaeth â'r teulu (Mae Salwch sydd wedi'i Ffugio yn eithriad i "Bartneriaeth â Rhieni".)
- Ystyried trefniadau diogelu priodol i'r plentyn
- Ystyried a ddylid ymgynghori â gweithiwr iechyd proffesiynol a all rhoi barn arbenigol, ac sy'n annibynnol o'r achos
- Sicrhau bod pob asiantaeth yn deall yr angen i gydweithio'n agos iawn ac i ddarparu gwybodaeth i'w gilydd

- Dim ond yn ystyried defnyddio fideo gwyliadwriaeth gudd fel ffordd bosibl o weithredu ar ôl trafodaeth lawn o fewn y cyfarfod strategaeth. Dim ond yr heddlu all roi hyn ar waith yn unol â'u canllawiau ac mae'n rhaid cydymffurfio â Deddf Rheoli Pwerau Archwilio 2000.
- Datblygu cynllun gweithredu clir, er mai casglu gwybodaeth bellach o bosibl fydd y cam nesaf mewn nifer o achosion, yn enwedig os yw'r broses gyfeirio newydd ddechrau.
- Pwysleisio y bydd pob asiantaeth o bosibl angen derbyn cyngor cyfreithiol. Mewn achosion cymhleth, efallai y bydd angen i ymgynghorwyr cyfreithiol gwrdd â phob gweithiwr proffesiynol perthnasol arall.
- Ystyried yr angen am gyfarfodydd strategaeth pellach
- Cofnodi digwyddiadau'r cyfarfod, gyda rheolaeth lem dros ddosbarthu'r cofnodion
- Ystyried anghenion pob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â'r teulu a darparu cymorth ac arolygiaeth iddynt.

(***Mae'n bosibl y bydd cyfres o gyfarfodydd strategaeth yn cael eu cynnal o dan y gweithdrefnau amddiffyn plant cyn y gwneir penderfyniad i fynd ymlaen i gynnal cynhadledd amddiffyn plant.)***

2.5 Gweithredu penodol gan y PAPA:

- Bydd pob PAPA angen sicrhau bod gweithwyr proffesiynol priodol yn cael eu henwebu o bob asiantaeth a'u bod yn cadw rhestr o'r enwau hyn (Gweler Atodiad E).

- Bydd pob PAPA, trwy'r gweithwyr Iechyd, angen sicrhau mynediad at farn feddygol arbenigol.

Amddiffyn Plant y mae Salwch yn cael ei Achosi neu'i Ffugio gan Ofalwyr
Protocol Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal i Gymru Gyfan

ATODIAD A

YSTYRIAETHAU AR GYFER GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL

3.0 **Y Gwasanaeth Iechyd** fydd yr asiantaeth gyntaf yn aml i fynegi pryderon. O ganlyniad, mae'n bwysig fod yna gysylltiadau da wedi'u sefydlu â Gwasanaethau Cymdeithasol/Gwasanaethau Plant ac unedau Amddiffyn Plant/Teuluoedd yr Heddlu, i alluogi trafodaeth gynnar ar yr achosion.

O fewn lleoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac yn benodol, lle bydd arbenigwyr "heb fod yn baediatregwyr" yn gofalu am blant a phobl ifanc, mae'n hanfodol, unwaith eto, bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymwybodol o bosibiliadau'r ddiagnosis ac yn ymwybodol o lle i gael cyngor. Daw'r diagnosis hwn fel arfer gan y Meddyg a Enwir a/neu Nyrs Amddiffyn Plant a Enwir o'r Ymddiriedolaeth.

Mae'n hanfodol bod Gweithwyr Iechyd Proffesiynol yn gwbl ymwybodol o'r angen i wneud penderfyniad cynnar ar rannu gwybodaeth gydag asiantaethau statudol.

Dylai'r Meddyg/Nyrs a Enwir (neu weithwyr iechyd proffesiynol priodol gydag arbenigedd), weithio gyda'r holl gydweithwyr iechyd sy'n gysylltiedig â'r achos i gasglu gwybodaeth sydd ar gael a gwneud penderfyniadau cynnar ar rannu gwybodaeth gyda Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.1 Gweithredu gan Weithwyr Iechyd Proffesiynol (os bydd y Gwasanaeth Iechyd yn mynegi pryderon cychwynnol)

3.1.1 Dylai staff Meddygol a Nyrsio gofnodi eu pryderon a chwilio am ragor o wybodaeth am y teulu o fewn eu hadran eu hunain yn y lle cyntaf (Dylai gweithwyr iechyd proffesiynol fod yn ymwybodol o brotocolau lleol o ran y defnydd o "gofnodion atodol". Mae'n **rhaid** iddynt gyfathrebu â gweithwyr iechyd proffesiynol lleol, sydd â chysylltiad posibl â'r teulu, e.e. y Meddyg Teulu, y Meddyg a Nyrs Amddiffyn Plant a Enwir a/neu a Ddynodir ac asiantaethau eraill.

3.1.2 Dylai staff nad ydynt yn feddygon/ nad ydynt yn ymwneud â nyrsio gyfathrebu â'r Gweithiwr Proffesiynol priodol a Enwir a/neu Weithiwr Proffesiynol sy'n Arwain ar Amddiffyn Plant a chofnodi yn ôl yr hyn a gynghorir.

3.1.3 Dylid enwebu gweithiwr iechyd allweddol i gasglu'r **HOLL** wybodaeth iechyd ar draws yr unedau gofal a'r gymuned. Dylai hyn hefyd gynnwys gwybodaeth berthnasol am y teulu sydd ar gael gan y Meddyg Teulu gan gynnwys gwybodaeth berthnasol am ofalwyr y plentyn.

3.1.4 Gellir galw cyfarfod y gweithwyr iechyd proffesiynol ynghyd ar yr adeg hon gan gynnwys gweithwyr perthnasol, neu gyswllt uniongyrchol a wnaed gyda gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Mae'n hanfodol nad yw troseddwyr posibl yn cael eu hysbysu eto.

3.2 Ystyriaethau Iechyd Ychwanegol:

3.2.1 Sicrhewch fod gweithiwr iechyd proffesiynol "allweddol" yn cael ei enwebu, a fydd yn sicrhau cytundeb rhwng gwasanaethau cynradd ac eilaidd ac yn cynnal cyswllt â gwasanaethau trydyddol hefyd.

3.2.2 Bydd gweithwyr iechyd proffesiynol angen monitro a thrafod pan fydd y teulu yn gofyn am gyngor o ganolfannau eraill neu ganolfannau arbenigol eraill.

3.2.3 Bydd y gwasanaeth iechyd angen cymryd camau i sicrhau fod archwiliadau/ymyrraeth yn cael eu cyfyngu.

3.2.4 Os na fydd y Meddyg Teulu yn gallu mynychu cyfarfodydd strategaeth, bydd rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol a enwebir sicrhau fod yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu, ond mewn ffordd nad yw'n tynnu sylw'r teulu.

3.2.5 Mae angen i weithwyr iechyd proffesiynol sicrhau eu bod yn rhannu cymaint o wybodaeth â phosibl ag asiantaethau statudol.

3.2.6 Mae'n rhaid i weithwyr iechyd proffesiynol sicrhau eu bod yn cyfeirio at y polisi cenedlaethol sef, "Safeguarding Children in Whom Illness is Fabricated/Induced" ac adroddiad y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) am gyfarwyddyd a gwybodaeth pellach.

Amddiffyn Plant y mae Salwch yn cael ei Achosi neu'i Ffugio gan Ofalwyr
Protocol Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal i Gymru Gyfan

ATODIAD B

YSTYRIAETHAU AR GYFER GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Dylid rheoli Cyfeiriadau i Wasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â salwch sydd wedi'i ffugio neu ei achosi yn unol â *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2002) (*Rhan Tri: *Ymdrin ag Achosion Unigol),* a Phrotocol PAPA Cymru Gyfan sef *Safeguarding Children in Whom Illness is Fabricated or Induced*.

4.0 GWEITHREDU GAN WEITHWYR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL PROFFESIYNOL

Rôl Gwasanaethau Cymdeithasol yw cynnal asesiadau a chynllunio, i ddarparu gwasanaethau ac i arolygu.

4.1 Ystyriaethau o Bwys

4.1.1 Gweithredu Uniongyrchol

- Os oes tystiolaeth feddygol, ar unrhyw gam yn y broses, i ddangos fod bywyd y plentyn mewn perygl, dylai'r heddlu a/neu Gwasanaethau Cymdeithasol weithredu ar unwaith i sicrhau diogelwch y plentyn.
- Natur y gamdriniaeth fydd y ffactor penderfynol e.e. mygu neu wenwyno bwriadol. Nid yw sôn ar lafar am salwch wedi'i ffugio yn debygol o angen gweithredu mor gyflym.
- Fodd bynnag, gall amgylchiadau newid fel y bydd yr asesiad yn mynd yn ei flaen, yn enwedig os bydd rhieni yn dod yn ymwybodol fod gweithwyr proffesiynol yn amau bod symptomau'n cael eu ffugio. O ganlyniad, dylid arolygu penderfyniadau am yr angen i weithredu ar unwaith yn gyson.
- Dylai gweithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd ystyried a oes angen unrhyw weithredu i amddiffyn plant eraill yn yr un cartref.

4.1.2 Gwybodaeth i Rieni

- Yn ystod pob cam o'r ymholiadau, o gyfeirio a chynllunio'r achos i ymyrraeth ac arolwg, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i ba wybodaeth i'w rhannu gyda'r rhieni, pryd a gyda phwy, gan ystyried lles y plentyn.

- Dylid gwneud penderfyniadau am rannu gwybodaeth â rhieni ar y cyd â'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â'r achos, yn unol â Gweithdrefnau PAPA Cymru Gyfan.
- Ni ddylid mynegi pryderon os ydych o'r farn y bydd y weithred hon yn peryglu diogelwch y plentyn.

4.2 Asesiad Cychwynnol

- Mae cronoleg yn rhan hanfodol o'r asesiad cychwynnol. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn ei ffurfio o'r cofnodion sy'n bodoli eisoes a'r holl wybodaeth sydd ar gael i baratoi ar gyfer strategaeth rhyngasiantaethol neu gyfarfod rhannu gwybodaeth. Dylai'r gweithiwr iechyd proffesiynol allweddol a enwebir sy'n gyfrifol am gasglu'r holl wybodaeth iechyd yn achos y plentyn hefyd fod yn paratoi cronoleg iechyd.

4.3 Pwyllgor Strategaeth (gweler 2.4 hefyd)

- Rhaid cynnal cyfarfod strategaeth wyneb yn wyneb bob tro yn hytrach na thrafodaeth dros y ffôn.
- Dylai'r Heddlu a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau fod ymgynghorydd meddygol y plentyn, uwch nyrs ar ward (os yw'r plentyn wedi bod yn yr ysbyty) a phob gweithiwr proffesiynol perthnasol arall yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau am rannu gwybodaeth â rhieni.
- Efallai y bydd angen mwy nag un cyfarfod strategaeth i sicrhau bod materion cymhleth yn cael eu trafod yn drylwyr cyn gwneud penderfyniad i gychwyn ar ymholiadau Adran 47.

4.4 Cynhadledd Amddiffyn Plant Cychwynnol

- Dylai'r gweithiwr cymdeithasol sicrhau fod y gynhadledd amddiffyn plant cychwynnol yn cael ei chynnal o fewn 15 niwrnod gwaith o'r cyfarfod strategaeth. O ystyried y ffaith bod nifer o gyfarfodydd strategaeth yn cael eu cynnal, dylid cynnal y gynhadledd o fewn 15 niwrnod gwaith o'r cyfarfod strategaeth diwethaf a gynhaliwyd.
- Dylai'r gweithiwr cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'i reolwr atebol, ystyried gwahodd gweithiwr proffesiynol sydd ag arbenigedd yn y maes salwch sydd wedi'i ffugio neu ei achosi ynghyd â gweithiwr meddygol proffesiynol megis paediatregydd sydd â gwybodaeth am symptomau a phrosesau salwch penodol a achosir gan gamdriniaeth sy'n cael ei amau e.e. salwch yn ymwneud â'r stumog/perfedd (gastro-enterig), salwch niwrolegol, salwch resbiradol ac ati. Gall y gweithwyr

proffesiynol fod o gymorth mawr i'r gynhadledd i wneud synnwyr o'r holl wybodaeth a gyflwynir.

- Dylid cynnwys plant yn y gynhadledd amddiffyn plant cychwynnol mewn ffyrdd sy'n briodol i'w hoedran a dealltwriaeth. Maent yn debygol o fod wedi dioddef camdriniaeth emosiynol a dylid cynnal trafodaethau mewn modd sensitif, gyda'r plentyn yn gwybod ei fod yn ddiogel. Dylid hefyd ystyried diogelwch y plentyn ar ôl y gynhadledd a sut y dylid cyfleu hyn i'r plentyn.
- Bydd rhieni fel arfer yn cael eu gwahodd i'r gynhadledd ond efallai na fydd hi'n bosibl iddynt gyd fynychu ar yr un amser. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol baratoi ar gyfer aelodau'r teulu cyn y gynhadledd gan ddefnyddio ei (b) farn yn seiliedig ar hyn mae ef/hi yn gwybod am bob un ohonynt. Mae'n bosibl na fydd y gofalwr sy'n cam-drin yn dymuno cyfaddef ei ymddygiad o flaen ei bartner ac ni ddylid ei osod dan bwysau i siarad am y gamdriniaeth. Materion i'w trafod y tu allan i'r gynhadledd yw'r rhain. Dylid trafod penderfyniadau ar sut i reoli proses y gynhadledd gyda chadeirydd y gynhadledd.
- Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn cyfrannu adroddiad i'r gynhadledd, ynghyd â gweithwyr proffesiynol allweddol eraill, gan nodi eu cysylltiad â'r teulu. Mae cywirdeb ffeithiol yn hanfodol. Dylid llunio cronoleg, gan ganolbwyntio'n benodol ar hanes meddygol y plentyn, ar y cyd â Paediatregydd Ymgynghorol cyfrifol sy'n ymwneud â'r achos a dylid ystyried hanes iechyd brodyr a chwiorydd yn ogystal. Fel arfer, ni fydd angen rhannu adroddiad y gweithiwr cymdeithasol a'r gronoleg gyda'r rhieni cyn y gynhadledd. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol drafod yr amser ar gyfer hyn gyda chadeirydd y gynhadledd. Mae hyn yn berthnasol i bob adroddiad proffesiynol.

Amddiffyn Plant y mae Salwch yn cael ei Achosi neu'i Ffugio gan Ofalwyr
Protocol Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal i Gymru Gyfan

ATODIAD C

YSTYRIAETHAU AR GYFER YR HEDDLU

5.1.1 Gall unrhyw achos sy'n cael ei amau o salwch sydd wedi'i ffugio neu ei achosi olygu bod trosedd wedi'i chyflawni hefyd a dylid cynnwys yr heddlu bob tro yn gynnar yn y broses yn unol â 'Gweithio gyda'n Gilydd'.

5.1.2 Dylai Ditectif Arolygol profiadol arwain achosion cymhleth o'r fath a dylai fel rhan o'r tîm rheoli amlasiantaethol ystyried strategaeth arestio ymhell cyn iddi gael ei chyflawni, yn enwedig pan fo achosion o'r fath yn cael eu cynnal ar wardiau ysbytai.

5.1.3 Mae'n rhaid edrych ar bob ffordd o archwilio, gan gynnwys gwyliadwriaeth gudd, i sicrhau fod y safonau uchaf posibl o onestrwydd proffesiynol yn cael eu cynnal.

5.1.4 Dim ond pan nad oes ffordd arall o esbonio arwyddion a symptomau'r plentyn y dylid defnyddio gwyliadwriaeth gudd ac os yw cyfarfod y strategaeth amlasiantaethol yn credu bod ei ddefnydd yn gyfiawn ac yn deg yn seiliedig ar y wybodaeth feddygol sydd ar gael.

5.1.5 Mae'n rhaid i unrhyw ddefnydd o blismona cudd gydymffurfio â Deddf Rheoli Pwerau Archwilio 2000 a Rhan 3 o Ddeddf Heddlu 1997 lle bo hynny'n briodol.

Amddiffyn Plant y mae Salwch yn cael ei Achosi neu'i Ffugio gan Ofalwyr
Protocol Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal i Gymru Gyfan

ATODIAD D

YSTYRIAETHAU AR GYFER GWASANAETHAU ADDYSG

6.0 RÔL ADDYSG

Mae gan ysgolion rôl bwysig i'w chwarae wrth ddynodi a rheoli achosion tybiedig o salwch sydd wedi'i ffugio neu ei achosi. Trwy eu cyswllt â phlant o ddydd i ddydd, mae athrawon a staff ysgol eraill mewn lle arbennig o dda i sylwi ar arwyddion allweddol o blentyn sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol. Yn yr un modd, mae staff o wasanaethau cymorth i ysgolion yr AALl, megis Swyddogion Lles Addysgol, Gweithwyr Cymdeithasol Addysg a Seicolegwyr Addysgol, mewn sefyllfa i fynegi pryderon.

6.1 Dynodi Salwch sydd wedi'i Ffugio neu ei Achosi

Mae nifer o ffactorau y dylai athrawon a staff eraill yr ysgol fod yn ymwybodol ohonynt a all ddynodi fod plentyn o bosibl yn dioddef salwch sydd wedi'i ffugio neu wedi ei achosi.

- Plant sy'n absennol o'r ysgol yn aml a heb esboniad.
- Plant sy'n absennol er mwyn ymweld ag ysbyty neu feddyg.
- Rhiant/gofalwr sy'n honni dro ar ôl tro bod y plentyn yn sâl yn rheolaidd a bod ef/hi angen triniaeth feddygol am symptomau neu salwch nad yw staff wedi sylwi arnynt.
- Storïau anghyson nad ydynt yn amlwg yn wir am salwch, damweiniau neu farwolaethau yn y teulu.

  Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o newidiadau arwyddocaol yng nghyflwr corfforol neu emosiynol plentyn, anafiadau heb eu hesbonio, newidiadau mewn ymddygiad a methu â ffynnu/prifio.

6.2 Gweithredu gan Staff Ysgol

Lle mae gan athro/athrawes neu aelod arall o staff achos i gredu bod plentyn mewn perygl o ddioddef, neu'n dioddef, salwch sydd wedi'i ffugio neu ei achosi, dylid dweud ar unwaith wrth yr athro/athrawes sydd â chyfrifoldeb dynodedig dros ddiogelu plant. Fel gyda phob ffurf arall o niwed sy'n cael ei amau, bydd 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan' yn berthnasol a bydd yr athro/athrawes a ddynodwyd yn cymryd cyfrifoldeb am wneud cyfeiriad priodol i Wasanaethau Cymdeithasol. Dylid cadw pob tystiolaeth sy'n ymwneud â'r pryder yn ddiogel oherwydd y posibilrwydd y bydd ei angen i ddarparu gwybodaeth wrth wneud penderfyniadau neu i gyfrannu tuag at unrhyw archwiliad sy'n dilyn.

Ni ddylai athrawon na staff eraill yr ysgol gyflawni eu harchwiliadau eu hunain neu drafod y mater gyda rhieni/gofalwyr y plentyn. Gyda diogelwch y plentyn yn flaenoriaeth yn bennaf oll, bydd yr athro/athrawes a ddynodwyd yn cymryd cyngor ynglþn ag a ddylai'r ysgol rannu ei bryderon gyda rhiant/gofalwyr y plentyn. Wedi i'r athro/athrawes a ddynodir gyfeirio'r pryder i Wasanaethau Cymdeithasol, bydd yr asiantaethau sy'n arwain, gan gynnwys Addysg, yn symud ymlaen gyda'r mater yn unol â threfniadau amddiffyn plant y PAPA lleol.

6.3 Gweithredu gan staff gwasanaethau cymorth i ysgolion yr AALl

Dylai staff o wasanaethau cymorth i ysgolion naill ai gyfeirio eu pryderon i'r athro/athrawes a ddynodir yn ysgol y plentyn neu i uwch swyddog yr AALl gyda chyfrifoldeb wedi'i ddynodi dros amddiffyn plant a fydd wedi hynny yn gwneud cyfeiriad i Wasanaethau Cymdeithasol.

6.4 Cyngor pellach

Gellir cael cyngor pellach gan uwch swyddog yr AALl sydd â chyfrifoldeb am gydlynu gweithredu a pholisi ar amddiffyn plant.

Amddiffyn Plant y mae Salwch yn cael ei Achosi neu'i Ffugio gan Ofalwyr
Protocol Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal i Gymru Gyfan

ATODIAD E

RHESTR PAPA O WEITHWYR PROFFESIYNOL "ALLWEDDOL"

(i'w gwblhau gan bob PAPA)

Gweithwyr Proffesiynol sydd wedi'u dynodi yng: Salwch sydd wedi'i Ffugio

- **Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Allweddol**

- **Gweithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Proffesiynol Allweddol**

- **Gweithwyr Addysg Proffesiynol Allweddol**

- **Gweithwyr Heddlu Proffesiynol Allweddol, gan gynnwys y rheini sydd â Chyfrifoldeb dros Fideo Gwyliadwriaeth Gudd**

- **Gweithwyr Cyfreithiol Proffesiynol Allweddol sy'n medru cael mynediad i gyngor meddygol arbenigol**